**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | D W Helliwell | M Sherwood |
| P B Smith | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): T J Hennegan, L J Tyler-Lloyd a/ac L V Walton

---

## 22 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 23 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2021 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 24 Adborth o'r Gweithdy ar y Cynllun Gwaith. (Llafar)

Darparodd y Cadeirydd drosolwg o'r gweithdy a'r materion a drafodwyd. Roedd yr eitemau canlynol yn canolbwyntio ar y canlynol:

**1) Cydgynhyrchu**

- Awgrymwyd y dylid gwahodd cynrychiolydd o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddangos sut maent wedi rheoli cyd-gynhyrchu ac wedi cynhyrchu eu fframwaith polisi.
- Awgrymwyd hefyd y dylid gwahodd Lee Wenham i drafod ymagwedd gorfforaethol

**2) Gwella golwg a naws cymdogaethau**

- Edrych ar agenda'r strydlun a gwahodd cynrychiolydd
- Trafod sut y gall y Pwyllgor weithio gyda thrigolion a swyddogion i wella a chyfoethogi eu hardaloedd
- Ariannu a gweithio gyda chymunedau/ystyried cydgynhyrchu i gefnogi gwaith

**3) Adeiladu ar Weithredu Cymunedol/Gwirfoddolwyr**

- Gwahodd cynrychiolydd i drafod cyllid i gefnogi cynlluniau cymunedol
- Adeiladu ar weithredu cymunedol a ddangoswyd drwy bandemig COVID-19 a bwrw ymlaen â hynny
- Strategaeth gwirfoddoli ar gyfer staff

**4) Nodi Gwasanaethau y gallai'r cyngor eu darparu o dan y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

- O edrych ar wasanaethau y byddai'r cyngor yn gallu eu darparu nad yw'n gallu eu darparu ar hyn o bryd
- Adolygu'r hyn y mae awdurdodau eraill wedi'i wneud o dan y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol
- Prentisiaethau /hyfforddiant a dilyniant gyrfa i staff

**5) Trafnidiaeth**

- Gwahodd cynrychiolydd i roi trosolwg o anghenion trafnidiaeth
- Gwahodd cynrychiolydd o ddarparwyr trafnidiaeth a/neu Gynlluniau Cludiant Cymunedol
- Awgrymwyd, gan ei fod yn bwnc mawr a bod nifer o Bwyllgorau Datblygu Polisi yn edrych ar agweddau ar drafnidiaeth, y byddai'n werth cynnal gweithdy/cyfarfod ar y cyd ar drafnidiaeth i ddeall y materion allweddol a thrafod pa faterion y mae pob Pwyllgor yn edrych arnynt.

Yn ogystal â'r eitemau hynny a drafodwyd yn y gweithdy, trafododd y Pwyllgor hefyd strategaeth y gweithlu a sut i gefnogi, ailhyfforddi a gwella sgiliau'r gweithlu presennol i addasu i'r ffyrdd newydd o weithio – sut i gael gwared ar rywfaint o fiwrocratiaeth a chyfyngiadau i staff wrth gadw mewn cysylltiad a monitro perfformiad ar yr un pryd. Trafododd y Pwyllgor arolygon staff a siarad â staff ac aelodau i gydgynhyrchu unrhyw bolisi a wnaed. Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor gynllunio holiadur ar gyfer staff sy'n ymwneud â gweithlu'r dyfodol y gellid wedyn ei ddosbarthu a'i fwydo i mewn i strategaeth y Gweithlu. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y byddai'n werth siarad â phreswylwyr er mwyn cwblhau'r wybodaeth yn ogystal â chael eu barn ar gael mynediad at wasanaethau ac a yw'r ffyrdd newydd o weithio yn diwallu eu hanghenion.

Trafododd y Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid hefyd. Roedd gan Gyngor Abertawe Fforwm Ieuenctid, ond nid Cyngor Ieuenctid. Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor geisio sefydlu Cyngor Ieuenctid i sicrhau bod barn pobl iau yn cael ei chlywed.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariad.

**25 Cynllun Gwaith 2021/21.**

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith 2020/21.

Trefnwyd i'r Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Adfer.

Awgrymwyd y dylid ychwanegu'r Cyngor Ieuenctid at yr Agenda ar gyfer mis Mawrth.

Dylid sefydlu cyfarfod/gweithdy ar y cyd ar drafnidiaeth.

Ychwanegir cymorth i staff y cyngor at y Cynllun Gwaith.

**Penderfynwyd** diweddaru Cynllun Gwaith 2020/21 yn unol â hynny.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.20 pm

**Cadeirydd**